

CYNGOR CYMUNED LLANEGRYN

Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun, Medi 30ain 2024 am 7.30yh yn y Neuadd, Llanegryn.

Presennol; Cyng. Alwyn Roberts, Lona Harris, William T Davies, Catrin Rutherford, Eurgain Haf Davies, WRP Jones a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Alwyn Roberts.

Roedd ymddiheuriad i law gan Cyng Beth Lawton,(Cyngor Gwynedd) a danfonwyd ein cofion cynhesaf ati.

Gwahoddwyd ddatganiadau o ddidordeb am faterion ar yr agenda. Nid oedd unnrhyw ddatganiadau.

2. Cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

Croesawyd Heather Black, Kate Cope, Rhian Roberts, Beryl Jones, a Catherine Williams o Bwyllgor Neuadd Llanegryn i'r cyfarfod.

Trafodwyd fel y mae yn rhaid iddynt ddiweddu cyfansoddiad y Neuadd, gan nad oedd hyn wedi ei wneud ers 1959, a bod angen ymddiriedolwyr newydd. Eglurwyd mai Pwyllgor Rheoli ydynt, ac mai'r Cyngor Cymuned yw'r corff sy'n goruchwyllo y cyfan. Cadarnhwyd nad oeddynt yn gweld fod angen newid y polisi yswiriant. Nodwyd fod angen eglurder am y cyfan, a chysylltu gyda'r Comisiwn Elusennau. Byddai angen hefyd apwyntio un Cynghorydd o'r Cyngor ar Bwyllgor y Neuadd. Addawodd y Clerc geisio ymchwilio mwy i hyn, a chysylltu gyda Heather Black. Diolcwyd i'r cynrychiolwyr am fynychu, a gadawsant y cyfarfod.

3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 27ain o Awst ar gynnig Cyng.Lona Harris a'i eilio gan Cyng Catrin Rutherford.

4. Materion yn codi a materion eraill.

- Gardd Goffa** – adroddwyd am y datblygiadau yn ddiweddaraf, a bod anfoneb olaf GT Davies & Co i law am £16,468.74 a TAW am £3293.75.(cyfanswm £19,762.49) Roedd y cyfan o'r gwybodaeth diweddaraf ganddo (oedd yn amlinellu'r swm dyledus ynghyd a lluniau) wedi eu danfon i bob Cynghorydd drwy e-bost ar y 24ain o Fedi. Cytunwyd, ar gynnig Cyng William Davies a'i eilio gan Cyng Catrin Rutherford i'w dalu yn llawn, ond ar yr amod fod pob cynghorydd yn cael cyfle i ymweld a'r safle, a rhoi y cadarnhad terfynol i'r Clerc.

Cadarnhawyd gan y Clerc fod y cais am ad-daliad TAW am y rhan daliad cyntaf wedi ei wneud.

Nodwyd ohebiaeth a'r cynnig caredig gan Elaine Anikey i roi mainc yno, a diolchwyd yn fawr iawn am hyn. Byddai'r Clerc yn ymateb ymhellach yn dweud y gallai archebu pan yn gyfleus, a rhoi y plac fel y dymunai.

Nodwyd fod angen peth gwaith tirlunio ar y safle, gan gynnwys gosod blodau ayyb, ac y byddai yn beth da gwahodd Kathleen atom i'r cyfarfod nesaf, gan fod ganddi arbenigedd allai ein cynorthwyo.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd ar gynnig Cyng Eurgain Davies a'i eilio gan Cyng William Davies i ddilyn cyfraddau cyfredol Cyngor Gwynedd gyda chostau claddu llwch ayyb yn yr Ardd Goffa i'r dyfodol. (dosbarthwyd er gwybodaeth pawb).

Gofynnodd y Clerc a oedd yna gopi o'r hysbyseb gyhoeddus ar y cychwyn pan oedd y Cyngor yn gwahodd tendrau ar gyfer y gwaith yn yr Ardd Goffa, oherwydd gallai yr Archwilydd ofyn am hyn.

- b) **Llwybr sy'n arwain at y cae chwarae** – darllenwyd e-bost Vanessa Priestley dyddiedig 29ain Awst yn rhoi ei dehongliad o'r sefyllfa gyda'r coed oedd angen eu torri. Roedd angen gwybod pwy piau y tir, a pwy oedd yn gyfrifol, a nodwyd fod Kevin Jones wedi tacluso yno, ond dim torri y coed yn y gorffennol.
- c) **Cyflwr ffordd ddi-ddosbarth o Roslefain i gyfeiriad y Ffordd Ddu** – nid oedd ymateb pellach
- d) **Sedd wag ar y Cyngor** – ers y cyfarfod diwethaf, roedd y broses wedi mynd ymlaen ar gyfer cyfethol, gyda gwahoddiad am enwau. Roedd poster wedi ei roi ar yr hysbysfrwrdd, ac wedi ei roi ar y wefan, gyda dyddiad cau 27ain o Fedi. Nodwyd fod dau enw i law, ac yn dilyn pleidlais gyfrinachol ar bapur i bob Cynghorydd, datgelwyd mai Rhys Wyn Williams o Bryneglwys oedd wedi ei ddewis. Byddai'r Clerc yn cysylltu.

5. Materion Cynllunio

Nid oedd unrhyw geisiadau i law.

6. Materion Cyllid.

- a) Cyfrifon 2023-24 – nid oedd dim datblygiad pellach.
 - b) Cytunwyd, ar gynnig Cyng Lona Harries a'i eilio gam William Davies i dalu yr anfonebau canlynol;
- Cydnabyddiaeth y Clerc am ail chwarter y flwyddyn (£400.01) a thaliad HMRC (£100)

7. Gohebiaeth.

- a) Nodwyd manylion cynhadledd Genedlaethol Un Llais Cymru yn Llanelwedd ar yr 16eg o Hydref.
- b) Nodwyd manylion taliadau Cynghorwyr i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Medi, a oedd wedi ei gwbwlhau gan y Clerc (gan gynnwys nil returns)
- c) Nodwyd digwyddiad ar y cyd rhwng Un Llais Cymru a'r SLCC ar yr 20fed o Dachwedd.
- d) Nodwyd ohebiaeth Un Llais Cymru am reol presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd – sef absenoldeb am fwy na 6 mis.

e) Nodwyd gohebiaeth am Nodyn datblygu ymarfer 8 y Cod ymddygiad gan Un Llais Cymru.

f) Nodwyd ohebiaeth am Adolygiad Dosbarthiadau a Mannu Pleidleisio Cyngor Gwynedd. Nodwyd fod yn bwysig ymateb i ddweud mor bwysig yw cadw at y sefyllfa bresennol, neu yn anorfod bydd llai yn pleidleisio.

g) Nodwyd e-bost gan Cyng Catrin Rutherford ei bod yn dymuno tynnu enw yn ol o fod yn gynrychiolydd Un Llais Cymru. Cytunodd Cyng Lona Harries I fod yn gynrychiolydd dros y Cyngor. Nodwyd gyfarfod o Un Llais Cymru Meirionnydd Nos Fercher 2ail Hydref.

8. Unrhyw fater arall.

- Roedd cwynion fod y gwrych ar ochr chwith y ffordd wrth deithio i mewn i Lanegryn o'r briffordd A493, sef gyferbyn a mynediad yr ysgol tuag at fynediad ystad Maesegryn angen ei dorri.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y NEUADD LLANEGRYN NOS LUN 18fed Tachwedd 2024 , 7.30y.h.

Minutes of a Council Meeting held on Monday, September 30th 2024 at 7.30pm in the Hall, Llanegryn.

Present; Cllr. Alwyn Roberts, Lona Harris, William T Davies, Catrin Rutherford, Eurgain Haf Davies, WRP Jones and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Alwyn Roberts.

An apology was received from Cllr Beth Lawton, (Gwynedd Council) and we sent her our warmest regards.

Expressions of interest were invited for issues on the agenda. There were no statements.

2. Presentations by members of the public on an issue on the Agenda.

Heather Black, Kate Cope, Rhian Roberts, Beryl Jones, and Catherine Williams from the Llanegryn Hall Committee were welcomed to the meeting.

It was discussed how they must update the constitution of the Hall, as this had not been done since 1959, and new trustees were needed. It was explained that they are a Management Committee, and that the Community Council is the body that oversees everything. It was confirmed that they

did not see the need to change the insurance policy. It was noted that there was a need for clarity regarding the situation, and contact with the Charity Commission. It would also be necessary to appoint one Councilor from the Council on the Hall Committee. The Clerk promised to try to investigate this more, and contact Heather Black. The representatives were thanked for attending, and they left the meeting.

3. The minutes of the meeting held on the 27th of August were confirmed on the proposal of Cllr. Lona Harris and seconded by Cllr Catrin Rutherford.

4. Matters arising and other matters.

a) Memorial Garden - the most recent developments were reported, and that GT Davies & Co's last invoice was received for £16,468.74 and VAT for £3293.75. (a total of £19,762.49) He confirmed that all the latest information (which outlined the total amount due, together with photos) have been delivered to all Councilors by email on the 24th of September. It was agreed, on the proposal of Cllr William Davies and seconded by Cllr Catrin Rutherford to pay it in full, but on condition that each councilor has the opportunity to visit the site, and give the final confirmation to the Clerk.

The Clerk confirmed that the request for a VAT refund for the first part payment had been made. Correspondence and the kind offer from Elaine Anikey to put a bench there were noted, and all were very grateful for this. The Clerk would respond further saying that the order could be made when convenient, and give the plaque as she wished.

It was noted that some landscaping work was needed on the site, including placing flowers etc., and that it would be a good idea to invite Kathleen to the next meeting, as she has expertise that could help us.

Following discussion, Cllr Eurgain Davies' proposal was agreed and seconded by Cllr William Davies to follow Gwynedd Council's current rates with the costs of burying dust etc. in the Memorial Garden for the future. (distributed for everyone's information).

The Clerk asked if there was a copy of the public advertisement at the start when the Council invited tenders for the work in the Memorial Garden, because the Auditor could ask for this.

b) Path that leads to the playing field - Vanessa Priestley's email dated 29th August was read giving her interpretation of the situation with the trees that needed to be cut. It was necessary to know who owned the land, and who was responsible, and it was noted that Kevin Jones had tidied up there, but no cutting down the trees in the past.

c) Unclassified road condition from Roslefain in the direction of the Black Road - there was no further response

d) Vacant seat on the Council - since the last meeting, the process had gone ahead for co-option, with an invitation for names. A poster had been placed on the notice board, and had been placed on the website, with a closing date of 27th September. It was noted that there were two names to hand, and following a secret vote on paper for each Councillor, it was revealed that Rhys Wyn Williams from Bryneglwys had been chosen. The Clerk would contact.

5. Planning Matters

There were no applications received.

6. Finance Matters.

a) Accounts 2023-24 – there was no further development.

b) It was agreed, on the motion of Cllr Lona Harries and seconded by William Davies, to pay the following invoices;

Clerk's remuneration for the second quarter of the year (£400.01) and HMRC payment (£100)

7. Correspondence.

a) The details of the One Voice Wales National conference in Llanelwedd on the 16th of October were noted.

b) Details of Councilors' payments to the Welsh Government by the end of September, which had been completed by the Clerk (including nil returns) were noted.

c) A joint event between Un Llais Cymru and the SLCC was noted on the 20th of November.

d) Un Llais Cymru's correspondence was noted regarding the attendance rule for members at meetings - namely absence for more than 6 months.

e) Correspondence was noted regarding exercise development Note 8 of the Code of conduct by Un Llais Cymru.

f) Correspondence was noted regarding the Review of Gwynedd Council's Classifications and Voting Places. It was noted that it is important to respond to say how important it is to stick to the current situation, otherwise less will inevitably vote.

g) An e-mail from Cllr Catrin Rutherford was noted that she wished to withdraw her name from being a representative of Un Llais Cymru. Cllr Lona Harries agreed to be a representative for the Council. A meeting of Un Llais Cymru Meirionnydd was noted on Wednesday 2nd October.

8. Any other matter.

- There were complaints that the hedge on the left side of the road when traveling into Lanegrynn from the A493 highway, which is opposite the school entrance towards the Maesegrynn estate entrance, needed to be cut.

DATE OF NEXT MEETING; MONDAY EVENING 18TH NOVEMBER 7.30PM AT THE HALL,
LLANEGRYN.

